# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Lesley Walton | Adran Etholiadol: | Townhill |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi parhau i ymdrin â materion gwaith achos trwy fynd at swyddogion perthnasol y cyngor, grwpiau cymunedol etc. fel y bo'n briodol. Rwyf bob amser wedi ymateb i etholwr, hyd yn oed os nad yw wedi cael y canlyniad dymunol. Lle roedd nifer o faterion, rwyf wedi parhau i gysylltu â phreswylwyr a swyddogion i ddatrys cynifer o'r pryderon a godwyd ag y bo modd. Rwyf hefyd wedi parhau i gynnal fy nghymorthfeydd misol yng Nghanolfan y Ffenics a'r cymorthfeydd stryd achlysurol, gan guro ar ddrysau a chynnig help os oedd angen.

Rwyf wedi parhau i lunio cylchlythyrau rheolaidd i roi'r diweddaraf i breswylwyr am weithgareddau'r ward ac anfon llythyrau croeso at breswylwyr newydd y ward. Ac, fel llywodraethwr ysgol, rwyf wedi symud i Ysgol Dylan Thomas, gan fynd i ddau gyfarfod hyd yn hyn.

Rwyf wedi parhau i fynd i gyfarfodydd Tŷ TOPIC a PACT, y mae grwpiau amrywiol ar gyfer pobl hŷn yn mynd iddynt, gan gynnwys Preswylwyr Ward Townhill, a dau ddigwyddiad penodol: Agor yr estyniad ym mis Mehefin 14; a'r gwasanaeth i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf ym mis Tachwedd 2014.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 5 / 7 | 71% |
| Pwyllgor Archwilio | 8 / 10 | 80% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 5 / 7 | 71% |
| Y Cyngor | 13 / 17 | 76% |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 / 4 | 75% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 / 7 | 57% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 6 / 7 | 86% |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 5 / 5 | 100% |
| Grŵp Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol | 1 / 1 | 100% |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 2 / 3 | 67% |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 2 / 3 | 67% |
| **CYFFREDINOL** | **54 / 71** | **76%** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Gweithgor Craffu Parcio Ceir | 2 / 2 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 / 1 | 0% |
| Llywodraethu Ysgol (cyn ymchwiliad) | 1 / 1 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 1 / 1 | 100% |
| **CYFFREDINOL** | **4 / 5** | **80%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Yn ychwanegol at bwyllgorau'r cyngor, rwyf wedi parhau i fod yn aelod o gyrff allanol amrywiol:
Grŵp Llywio Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y Gorllewin), Aelod Ward, a Chymuned, Fforymau
Mae Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol yr Hill yn cynnal cyfleusterau yng Nghanolfan y Ffenics, a Phwyllgor Canolfan Gymunedol Townhill sy'n gweinyddu'r holl weithgareddau a gynhelir yn y ganolfan.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Fel un o'r tîm o gynghorwyr Llafur, rwyf wedi
- parhau i drefnu bod mwy o finiau baw cŵn yn cael eu gosod pan ofynnodd preswylwyr amdanynt
- llwyddo i atgyweirio bolardiau diolwg neu gael gwared arnynt yn gyfan gwbl, yn ogystal â chael gwared ar orchmynion cau ffyrdd, gan hwyluso mynediad i gerbydau brys
- dechrau cynllun plannu blodau gwyllt mewn safleoedd amrywiol ar draws y ward

Rwyf wedi dechrau tair menter barhaol hyd yn hyn eleni:
- trefnu i'r weiren bigog ddiolwg cael ei disodli, ac ailbaentio'r gatiau rhydlyd, ar hyd y gronfa ddŵr ar Heol Townhill - mae Dŵr Cymru wedi cytuno'n betrus ar y ddau beth hyn
- gan weithio gyda Chymunedau'n Gyntaf, rwyf wedi dechrau datblygu cynllun tymor hir ar gyfer Pwll "Ymolchi" Mayhill, i'w ddychwelyd yn fan picnic, a chefnogi'r gwaith a wnaed hyd yn hyn
- gyda help cynullydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth, rwyf wedi dechrau adolygiad o'r holl faterion sy'n ymwneud â rheoli gwastraff, o gasglu i dipio anghyfreithlon

Digwyddiadau a chyfarfodydd eraill rwyf wedi bod yn mynd iddynt
- Diwrnod y Rhuban Gwyn i ddangos fy nghefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef o gam-drin yn y cartref;
- ar brosiectau ynni adnewyddadwy i geisio cynnwys y gymuned a chynyddu'r manteision iddi;
- mewn lleoliadau amrywiol yn dilyn cynnydd prosiect Morlyn Llanw.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol: 31/10/2014 - Diogelu
Mae ymgymryd â rôl cynghorydd wedi rhoi amrywiaeth o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau newydd i mi ac rwyf wedi cael cyfleoedd da i'w defnyddio.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi parhau i gymryd rhan yng ngrŵp Credyd Teg Bae Abertawe sydd yn sicr wedi chwarae rhan wrth osod y cyfyngiad ar gyfraddau llog ledled y DU. Ar y cyd â hyn, rwy'n parhau i fod yn ymroddedig iawn i gefnogi Undeb Credyd LASA sy'n rhoi opsiwn arall i'w aelodau yn lle mynd at fenthycwyr arian didrwydded, y rhai cyfreithlon ac anghyfreithlon. Rwyf hefyd wedi parhau i hysbysebu banciau bwyd yn Abertawe a'r cyffiniau a sefydlu blwch casglu yn ystafell y grŵp Llafur.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 07.06.15 |